4H

# TAN DYCHRYNLLYD!

## YN ABERTAWY.

# WYTH O FYWYDAU

## WEDI EU COLLI!

Dygwyddodd un o'r damweiniau mwyaf dychrynllyd ag y clywsom am dano er ys llawer o flynedd-oedd, yn Abertawy, bore dydd Iau, Mai 10, 1866.

Yn gynar yn y bore, yn nghylch un o'r gloch, deallodd Policeman fod tân wedi tori allan yn Shop Mr. H. D. John, Draper, 2, Temple-street. Edrychodd i mewn trwy dwll bychan yn y Shutter, a chanfyddodd fod tân cryf yn mhen draw y Shop. Canwyd y gloch dân, daeth Policemen ac ereill yn fuan i'r lle—ymdrechwyd deffroi y teulu. Yn mhen ychydig canfyddwyd Mr, a Mrs. Johns, a'u plant yn eu breichiau, yn nghyd a benywod ereill, yn y ffenestri. Archodd Inspector Ball iddynt aros yno hyd nes y ceffid y Fire-escape.

Awd i gyrchu y Fire-escape; ond buwyd wyth mynyd neu chwaneg cyn gallu ei gyfleu mewn man y gallasai personau ddyfod iddo. Aeth Ball i fynu, derbyniodd blentyn o ddwylaw Mr. John. Wedi hyny cafodd fenyw ieuanc allan. Aeth i fynu eilwaith, ond methodd fyned i mewn i'r ystafell oherwydd tewder y mŵg a'i cyfarfyddai. Galwodd amrywiol o weithiau ar Mr. John, ond ni chafodd un

ateb; meddyliai ei fod yn clywed rhyw un yn ymlusgo ar hyd y llawr, ac yn fuan wedi hyn cyneuodd yr holl ystafell yn wenfflam, fel nad oedd un gobaith yn awr i neb allu dyfod allan. Ond gobeithid fod yr holl deulu wedi myned allan trwy y cefn, ac ni wybuwyd y gwirionedd nes bod yr holl adeilad a'i gynwysiad wedi eu difa gan yr elfen ddinystriol, ac na ddiangodd neb ond y plentyn a'r ddynes ieuanc y cyfeiriwyd atynt eisioes.

Gwelid yn awr fod y tân wedi cymeryd meddiant o'r holl adeilad, a chan fod y gwynt yn gryf yr oedd y fflamau yn ddychrynllyd, ac ofnid y buasai Shop Mr. Hurndall yn syrthio yn ysglyfaeth iddynt. Dygwyd y peirianau i weithio yn nerthol yn fuan wedi gweled y tân. Gwelwyd yn fuan nad oedd gobaith am achub Shop Mr. John, ac felly gwnawd ymdrechion egniol i achub y Shopau oedd bob ochr iddi - a llwyddwyd yn yr amcan hwn, ond nid heb i'r naill a'r llall gael eu niweidio yn fawr. Darostyngwyd grym y tân erbyn tri o'r gloch.

Yn y tŷ yr oedd Mr. a Mrs. John, a'u merch bedair blwydd oed; Miss Margaret Davies, Newport, swydd Benfro, 21 oed, yr hon oedd ddim ond newydd ddyfod yno; Miss Deacon, merch ieuanc o Shropshire; Miss Smith, 18 oed—dynes ieuanc o Llanelli oedd hon; Annie Edwards, nurse, Bathurst-street, Abertawy; a Kate Owen, cook, o Lansamlet. Trengodd y rhai hyn oll!!

Dywedir fod y nwyddau a'r dodrefn wedi eu diogelu yn y swm o £3,000, mewn un swyddfa, a'r tŷ mewn swyddfa arall.

Prydnhawn dydd Gwener, agorwyd trengholiad ar yr amgylchiad, pryd y cafwyd fod y teulu yn cynwys Mr. a Mrs. John, dwy ferch fechan, un yn nghylch dwy flwydd a haner oed, a'r llall yn nghylch pum mlwydd; dwy forwyn, a phedair merch yn cynorthwyo yn y shop; cysgai y rhai hyn oll yn y tŷ. Yr oedd yno bedwar o ddynion ieuainc, a dau fachgenyn—cysgai y rhai hyn oll allan, ac felly achubasant eu bywydau.

Cafodd y cyrph eu llosgi mor druenus, fel na chafwyd dim braidd ond eu hesgyrn; nid ellid adnabod un o honynt—casglwyd hwynt mewn blychau—a bernir y cleddir yr oll mewn *un blwch.*

---

O amgylchiad torcalonus!
  Teimlir ei effeithiau'n hir;
Prin mai neb yn cofio 'i debyg—
  Un dychrynllyd oedd yn wir;
Tŷ mawr, uchel, hardd, yn wenfflam!
  Tân yn ysu trwyddo'i gyd;
Er fod canoedd yno 'n edrych
  Ac yn plethu dwylaw 'nghyd!

Gwelwyd rhai o'r teulu 'n edrych
  Am ymwared o ryw le;
Pan o'r cruglwyth tanllyd codai
  Fflamiau hirion tua 'r ne'!
Geneth fechan, a merch ieuanc
  Allwyd achub rhag y fflam,

Cawd y rhai 'n o'r perygl mwyaf
Lawr i'r heol yn ddinam.

Och ! er galar, mewn cyfyngder
Ofer yw ymwared dyn ;
Pethau 'r ddaear, ofer ydynt
I'r rhai wrthynt sydd yn nglyn :
O ystyried pawb fod angen
Rhyw beth gwell nâ phethau'r llawr,
Nid oes neb all ein hamddiffyn
Ond ein mwyn Waredwr mawr.

Iawn ddefnyddier pethau'r ddaear—
Gwerthfawr ydynt yn eu lle ;
Ond nid oes a leinw angen
Dyn, ond pethau da y ne' ;
Arnynt rhoddwn ein serchiadau,
Ceisiwn hwynt bob dydd a nos :
Gall pechadur edifeiriol,
Gael y rhai 'n trwy waed y groes.

GWLADGARWR.



*E. Griffiths, Argraffydd, Abertawy.*